ADRODDIAD I'R:	Pwyllgor Trwyddedu
DYDDIAD:	13 Mehefin 2018
SWYDDOG ARWEINIOL:	Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd
SWYDDOG CYSWLLT:	Uwch Swyddog Technegol (Trwyddedu) 01824 706433
TESTUN:	Diweddariad ar Bolisi Euogfarnau Cerbydau Hacni a Hurio Preifat

1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1 Diweddariad i Aelodau ar y Polisi Euogfarnau Gyrwyr Cerbydau Hacni a Hurio Preifat.

2. CRYNODEB GWEITHREDOL

2.1 Mae Aelodau wedi trefnu diweddariad i nodi'r cynnydd ar y polisi sy'n gysylltiedig â'r Polisi Euogfarnau Gyrwyr Cerbydau Hacni a Hurio Preifat.

3. PŴER I WNEUD Y PENDERFYNIAD

3.1 Does dim angen penderfyniad.

4. GWYBODAETH GEFNDIR

4.1 Mae'r cyngor, fel rhan o'i swyddogaeth trwyddedu gyrwyr cerbydau hacni a hurio preifat wedi sefydlu Polisi Euogfarnau i arwain ymgeiswyr a swyddogion ar y disgwyliadau mewn perthynas â pherthnasedd euogfarnau ac ati.

4.2 Adolygwyd y polisi Euogfarnau cyfredol ddiwethaf yn 2014.

4.3 Bydd yr Aelodau'n cofio iddynt gytuno y dylai'r polisi presennol gael ei adolygu fel rhan o'u rhaglen gwaith i'r dyfodol.

4.4 Ers i hwn gael ei ychwanegu at y rhaglen gwaith i'r dyfodol, mae gwaith sylweddol wedi cael ei wneud gan weithgor cenedlaethol, o'r enw'r Sefydliad Trwyddedu (IOL), sy'n cynnwys sbectrwm eang o fudd-ddeiliaid â diddordeb mewn trwyddedu tacsis, i ddatblygu model cenedlaethol ar

addasrwydd ymgeiswyr a deiliaid trwyddedau ar gyfer cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat.

4.5 Cyhoeddwyd fersiwn terfynol Polisi'r IOL ym mis Ebrill eleni, a bydd Aelodau'n cofio fod polisi'r IOL wedi ei drafod yn ystod eu hyfforddiant diweddar i Aelodau a hwyluswyd gan James Button, ac roedd Aelodau yn awyddus i gael diweddariad ar y polisi yn y cyfarfod nesaf a drefnwyd. Er gwybodaeth i Aelodau, mae copi o bolisi'r IOL ynghlwm yn Atodiad A.

4.6 Bwriad y polisi cenedlaethol oedd i gymaint o awdurdodau lleol a bo modd fabwysiadu'r ddogfen i safoni'r gofynion isafswm ar gyfer pennu a oedd ymgeiswyr yn addas i fod yn yrwyr tacsis trwyddedig.

4.7 Mae Swyddogion wedi gwneud ymholiadau gydag awdurdodau cyfagos i benderfynu a oedd bwriad i fabwysiadu'r polisi "IOL" Cenedlaethol ledled Gogledd Cymru. Yn dilyn ymholiadau cychwynnol, dim ond Ynys Môn sydd wedi mynegi diddordeb mewn mabwysiadu polisi'r IOL.

4.8 Gan nad yw'n ymddangos y bydd yn cael ei fabwysiadu'n eang ar draws Gogledd Cymru, dylai Aelodau fod yn ymwybodol fod risg pe bai Sir Ddinbych yr unig Awdurdod Lleol yng Ngogledd Cymru i fabwysiadu polisi'r IOL gan fod posibilrwydd i ymgeiswyr na fyddent wedi cyflawni gofynion y polisi hwn ymgeisio i unrhyw awdurdod cyfagos nad yw wedi mabwysiadu'r polisi cenedlaethol a, phe bai'n cael ei gymeradwyo, byddai'n dal yn bosibl iddynt weithredu yn Sir Ddinbych dan rai amgylchiadau.

4.9 Dylai Aelodau fod yn ymwybodol fod Panel Technegol Trwyddedu (Cymru), fforwm o Swyddogion Trwyddedu awdurdodau lleol, hefyd wedi cael trafodaeth ynghylch Polisi Perthnasedd Euogfarnau Cenedlaethol yr IOL, derbyniwyd sylwadau cadarnhaol a negyddol, serch hynny roedd pawb yn credu fod angen craffu ymhellach ar y polisi hwn er mwyn canfod unrhyw amrywiad a'i effaith bosibl cyn y gallai'r Panel gefnogi ei fabwysiadau drwy Gymru.

4.10 Yn ychwanegol i waith helaeth yr IOL i ddatblygu polisi euogfarnau cadarn, bydd Llywodraeth Cymru, dros yr ychydig fisoedd nesaf, yn cyflwyno papur gwyn a fydd yn amlinellu cynigion o ran y ffordd y maent yn credu y dylai trwyddedu weithio yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i fod yn obeithiol y byddant mewn sefyllfa i gyflwyno deddfwriaeth i Gynulliad Cenedlaethol Cymru cyn diwedd tymor presennol y Cynulliad.

4.12 Mae Llywodraeth Cymru wedi awgrymu y byddai polisi'r IOL neu rhywbeth tebyg mwy na thebyg yn cael ei gynnwys yn y ddeddfwriaeth

newydd ar gyfer Cymru.

4.13 Yn y cyfamser, os bydd Aelodau'n penderfynu aros am ganlyniad Papur Gwyn Llywodraeth Cymru, byddai modd adolygu Polisi Euogfarnau presennol y Cyngor i sicrhau fod unrhyw feysydd amwys yn cael eu dileu neu eu hegluro.

5.0 ARGYMHELLION

5.1 Dylai Aelodau awdurdodi swyddogion i barhau i asesu'r effaith ar fabwysiadau Polisi Perthnasedd Euogfarnau Trwyddedu ar y cyd ag adolygiad Llywodraeth Cymru ac adrodd yn ôl i gyfarfod y pwyllgor yn y dyfodol.

5.2 Mae Aelodau yn cyfarwyddo swyddogion i adolygu'r Polisi Euogfarnau presennol ac adrodd yn ôl i gyfarfod nesaf y Pwyllgor.